

## Y Gwanwyn

### 1af - Alba Barranco Garcia

Heddiw yw'r diwrnod. Dw i wedi clywed straeon drwy'r fferm, mae pawb yn siarad amdano. Dw i'n nerfus, dw i ddim yn gwybod os ydw i am allu rhedeg.

Mae dyn yn dod, mae e'n agor y drws mawr. Dw i'n trio aros yn agos i mam. Mae pob dafad yn mynd allan i'r cae.

Mae'r glaswellt yn wyrdd a dw i'n gweld y daffodils melyn. Dw i'n gwranddo ar yr adar yn canu a dw i'n dawnsio gyda fy ffrindiau. Mae hi'n heulog, ac mae'r awyr yn las.

- "Mam, beth yw hyn?"

- "Cariad, mae hi'n wanwyn!"

### 2il - Elinor Cotton

8fed o Ionawr

Dw i'n deffro i sŵn y cloc larwm.

"Pum munud arall," dw i'n dweud. Mae hi'n rhy dywyll, dw i ddim isio codi.

1af o Fawrth

"Pum munud arall!" Dw i'n edrych ar y cloc larwm, ond dydy o ddim yn canu. Dw i'n gweld yr haul yn tywynnu. Dw i'n flin yn gyntaf, achos wnes i ddim cau'r llenni neithiwr. Yna dw i'n sylwi ar yr awyr euraidd. Dydy hi ddim yn gymylog neu'n bwrw glaw. Mae'r Gwanwyn yma! Mae'r adar yn canu a'r blodau'n blodeuo. Mae byd natur yn deffro – a finnau hefyd.

### 3ydd - Pablo Sanz Garcia

Roedd hiraeth arni hi.

Roedd hi eisiau mynd am dro gyda Tom, ond roedd y tywydd yn ofnadwy. Roedd hi'n caru'r gwanwyn, doedd hi ddim yn mwynhau'r gaeaf. Roedd y dyddiau yn ddu. Roedd y tŷ yn oer. Roedd y gwres yn rhy ddrud.

Ffoniodd Tom hi.

Oedd hi eisiau mynd i heicio gyda fe ddydd Sadwrn? Doedd hi ddim yn siŵr. "Pam ddydd Sadwrn?" Gofynnodd hi. "Mae newyddion ardderchog gyda fi! Mae'r gwanwyn yn dechrau yfory a bydd hi'n dwym ac yn heulog penwythnos yma", dywedodd e.

"Bendigedig!" canodd ffôn Tom.

Bydd yn wanwyn hapus iawn - gwenodd hi.